NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Sacropecsi is-asgwrn y cwtyn gan ddefnyddio rhwyll i drwsio llithriad cromen y fagina

28 Mehefin 2017

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio i drwsio llithriad cromen y fagina. Hefyd, gall achosi cymhlethdodau prin ond difrifol fel poen cyson, anymataliaeth wrinol a rhwymedd. Gall y rhwyll achosi problemau hefyd, ac efallai y bydd angen llawdriniaeth arall arnoch. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau. Mae hyn oherwydd y pryderon ynghylch ei effeithiau hirdymor a chymhlethdodau difrifol.

Mae llithriad cromen y fagina yn digwydd pan fydd rhan uchaf y fagina yn llithro i lawr o'i lleoliad arferol yn dilyn llawdriniaeth i dynnu'r groth neu'r serfics. Mae sacropecsi is-asgwrn y cwtyn yn golygu gosod darn o rwyll drwy doriad bach yn un ochr y pen-ôl, ar draws pen uchaf y fagina ac allan drwy doriad ochr arall y pen-ôl. Bydd hyn yn creu sling sy'n cynnal cromen y fagina.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2567-4

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights